# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion

(161)v5

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.16

### 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Yr Adolygiad o Wasanaethau Newyddenedigol yng ngogledd Cymru

Dechreuodd yr eitem am 14.30

### 4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Gynhadledd Fawr - y camau nesaf

Dechreuodd yr eitem am 15.03

### 5 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Paratoadau ar gyfer Tywydd y Gaeaf

Dechreuodd yr eitem am 15.42

## 6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Adolygiad o'r Cyllid sydd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig yng Nghymru: Yr Ail Adroddiad

Dechreuodd yr eitem am 16.11

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Parhad a Newid - Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 16.44

## 8 Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

Dechreuodd yr eitem am 17.12

**NDM5349 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013

Dechreuodd yr eitem am 17.21

**NDM5350 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Hydref 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol

Dechreuodd yr eitem am 17.23

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5259 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol sy’n ymwneud â’r trefniadau archwilio ar gyfer y Byrddau Draenio Mewnol y mae eu hardaloedd yn rhannol oddi fewn i Gymru, i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig wedi’i ddiwygio. Felly, gwrthodwyd y cynnig.**

### 11 Dadl: Cynlluniau'r GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol i fod yn Barod ar gyfer y Gaeaf

Dechreuodd yr eitem am 17.43

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5348 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi gwaith GIG Cymru a’i bartneriaid wrth iddynt baratoi ar gyfer y gaeaf o’n blaenau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y penderfyniad i ohirio llawdriniaethau orthopedig yn ardal Hywel Dda.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid cynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf fel mater o drefn, ac na ddylai arwain at ddirywiad mewn gwasanaethau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi Cynllun Paratoi ar gyfer y Gaeaf Cenedlaethol blynyddol ar gyfer GIG Cymru; a

b) cytuno bod cynlluniau o'r fath yn destun gwerthusiad ar ôl eu rhoi ar waith er mwyn canfod pa mor effeithiol ydynt.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at gynlluniau arfaethedig Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i ohirio'r holl lawdriniaethau orthopedig dewisol dros y gaeaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 5 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun paratoi ar gyfer y gaeaf pob Bwrdd Iechyd Lleol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith y cafodd 2,600 o lawdriniaethau eu gohirio y llynedd oherwydd bod mwy o bwysau dros y gaeaf ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Byrddau Iechyd Lleol er mwyn osgoi unrhyw achosion o oedi neu ganslo llawdriniaethau oherwydd pwysau'r gaeaf yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 7 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod 2,713 yn llai o welyau mewn ysbytai yng Nghymru nag a oedd yn 2003, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y gwelyau sydd ar gael er mwyn helpu i ateb yr her a ddaw yn sgîl y galw dros y gaeaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM5348 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi gwaith GIG Cymru a’i bartneriaid wrth iddynt baratoi ar gyfer y gaeaf o’n blaenau.

2. Yn credu y dylid cynllunio ar gyfer pwysau’r gaeaf fel mater o drefn, ac na ddylai arwain at ddirywiad mewn gwasanaethau.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi Cynllun Paratoi ar gyfer y Gaeaf Cenedlaethol blynyddol ar gyfer GIG Cymru; a

b) cytuno bod cynlluniau o’r fath yn destun gwerthusiad ar ôl eu rhoi ar waith er mwyn canfod pa mor effeithiol ydynt.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun paratoi ar gyfer y gaeaf pob Bwrdd Iechyd Lleol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18.40

Daeth y cyfarfod i ben am 18:44

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2013**